Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# **Gwrandawiad cyn penodi:** Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Gorffennaf 2022

## 1. Cyflwyniad

### Craffu cyn penodi

**1.** Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud amryw o benodiadau cyhoeddus ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae pwyllgorau'r Senedd yn ymgymryd â gwaith craffu cyn penodi mewn perthynas â rhai penodiadau er mwyn gwella'r broses graffu a sicrhau bod y broses penodiadau cyhoeddus yn fwy tryloyw. I ddarllen mwy o wybodaeth am y gwrandawiadau cyn penodi, ewch i wefan y Senedd.

### Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2.** Mae *Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015* (y Ddeddf) yn nodi bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru benodi Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (y Cynghorydd Cenedlaethol).

**3.** Bydd y Cynghorydd Cenedlaethol yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i gynghori Gweinidogion Cymru a'u cynorthwyo i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). Deiliaid presennol y swydd yw Yasmin Khan a Nazir Afzal OBE, sy'n gweithio ar sail rhannu swydd. Daw eu cyfnod yn y swydd i ben ym mis Gorffennaf 2022.

**4.** Ar 24 Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth newydd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022 i 2026.[1]

### Rôl y Cynghorydd Cenedlaethol

**5.** Disgwylir i'r Cynghorydd Cenedlaethol fod yn arbenigwr yn y maes. Nodir swyddogaethau'r Cynghorydd Cenedlaethol yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhoi cyngor i Weinidogion Cymru a'u cynorthwyo wrth iddynt fynd ar drywydd diben y Ddeddf neu fynd i'r afael â materion cysylltiedig;
- ymgymryd â gwaith ymchwil sy'n ymwneud â mynd ar drywydd diben y Ddeddf, archwilio a yw cam-drin yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag anghydraddoldeb o unrhyw fath rhwng pobl o rywedd gwahanol, hunaniaeth wahanol o ran rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol gwahanol;
- cynghori a rhoi cymorth, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru, i unrhyw un ar faterion sy'n ymwneud â mynd ar drywydd diben y Ddeddf; a
- llunio adroddiadau ar unrhyw fater sy'n ymwneud â diben y Ddeddf.

## 2. Y broses recriwtio

**6.** Hysbysebwyd y swydd am chwe wythnos hyd at 31 Mawrth 2022, drwy nifer o wefannau ac ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy dalu am hysbysebion a thrwy rwydweithiau rhanddeiliaid amrywiol. Darparwyd pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr, a oedd yn cynnwys manylion am y broses recriwtio, gan gynnwys cefndir a chyfrifoldebau allweddol y rôl (gweler Atodiad A), a gwybodaeth berthnasol arall.

[1] Llywodraeth Cymru, Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026, Mai 2022

**7.** Daeth 21 o geisiadau i law ac, yn dilyn sifft gan y Panel Asesu Ymgynghorol[2], gwahoddwyd wyth ymgeisydd i'r cam asesu nesaf.

**8.** Roedd y cam nesaf yn cynnwys:

- sesiwn rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys tua chwe rhanddeiliad, ac yr oedd disgwyl i'r ymgeisydd ei harwain, ar 9 a 10 Mai 2022; a
- chyfweliad ffurfiol gyda’r Panel Asesu Ymgynghorol ar 12 a 13 Mai 2022.

**9.** Cyn yr asesiad, tynnodd un ymgeisydd eu cais yn ôl, a chwblhaodd saith ymgeisydd y broses asesu.

### Yr ymgeisydd / ymgeiswyr a ffefrir

**10.** Yn dilyn y broses recriwtio, rhoddwyd rhestr i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o bum ymgeisydd y barnwyd eu bod yn addas ar gyfer y rôl.

**11.** Y ddau ymgeisydd a ffefrir gan y Gweinidog ar gyfer y rôl, ar sail rhannu swydd, yw Yasmin Khan (ailbenodi) a Johanna Robinson (penodiad newydd).

**12.** Yn ogystal â'i rôl fel y Cynghorydd Cenedlaethol presennol, Yasmin Khan yw Cadeirydd yr Adolygiad Dynladdiad Unedig Sengl ledled Cymru; Cyfarwyddwr Ymchwil Uwch Gwynion yr Heddlu i gam-drin rhywiol o fewn cymuned Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; aelod ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a'r gymuned ehangach; ac aelod o'r Bartneriaeth Menter Leol ar gyfer Awdurdod Cyfunol Dyffryn Tees sy'n gyfrifol am Dwf Cynhwysol.

**13.** Johanna Robinson yw Arweinydd Gweithredol Llamau yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae wedi gweithio o'r blaen fel Pennaeth Strategaeth yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent ac fel Pennaeth Gwasanaethau Dioddefwyr Heddlu Gwent. Treuliodd dair blynedd yn gweithio fel Rheolwr Datblygu Cenedlaethol i The Survivors Trust.

# 3. Y gwrandawiad cyn penodi

**14.** Er mwyn llywio’r gwrandawiad, rhoddodd Llywodraeth Cymru bapur briffio i ni ar y broses recriwtio a datganiadau personol a CVs Yasmin Khan a Johanna Robinson. Cynhaliwyd y

[2]Aelodau'r panel oedd: Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr; Kirsty Davies-Warner, Yr Is-adran Tegwch mewn Addysg; Craig Stephenson, Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel

gwrandawiad ddydd Llun 4 Gorffennaf 2022, pan wnaethom holi'r ymgeiswyr ar nifer o feysydd gan gynnwys:

- dealltwriaeth o'r dirwedd bresennol;
- gwaith craffu ac annibyniaeth;
- rôl y Cynghorydd Cenedlaethol a'r ffordd y mae wedi'i chyfyngu o ganlyniad i bandemig Covid-19;
- perthnasoedd gwaith; a
- mesur llwyddiant.

**15.** Mae trawsgrifiad llawn o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Pwyllgor.[3]

# 4. Safbwynt y Pwyllgor

**16.** Nodwn yr ymgeiswyr a ffefrir gan y Gweinidog ar gyfer rôl y Cynghorydd Cenedlaethol ac rydym yn croesawu'r cyfle i graffu arnynt fel rhan o'r broses cyn penodi.

**Conclusion 1.** Rydym yn falch o gymeradwyo'r ymgeiswyr a ffefrir gan Lywodraeth Cymru i rannu rôl y Cynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

**17.** Hoffem ddiolch i'r ddwy ymgeisydd am ymgysylltu â ni ac edrychwn ymlaen at ragor o gyfleoedd i graffu ar eu gwaith yn ystod y Senedd hon.

[3] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 4 Gorffennaf 2022

# Atodiad A

Mae'r swydd-ddisgrifiad yn nodi y bydd cyfrifoldebau allweddol y rôl yn cynnwys, ar ran Gweinidogion Cymru:

- cytuno ar gynllun blynyddol yn nodi sut y maent yn bwriadu arfer eu swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ganlynol;
- darparu adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru sy'n nodi sut y mae'r blaenoriaethau yn y cynllun blynyddol wedi'u bodloni, gan gynnwys datganiad o weithgareddau eraill y maent wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn;
- darparu safbwynt arbenigol ar ddatblygu a gweithredu polisi ar draws Llywodraeth Cymru a thrwy hynny helpu i ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau mwy cydlynol a chyson;
- gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru a thu hwnt i sicrhau arfer gorau, a chefnogi'r ansawdd a'r safonau uchel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru;
- adolygu'r camau a gymerir gan unigolion wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf, a hysbysu Gweinidogion Cymru o'r canfyddiadau;
- annog pob gwasanaeth ac asiantaeth i berfformio i safon o ansawdd, gan gynnwys cydgysylltu gwasanaethau, monitro perfformiad, gweithio aml-asiantaeth, rhannu gwybodaeth a chasglu data;
- darparu ffocws i sicrhau bod mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn flaenoriaeth ar draws y sector cyhoeddus;
- mynd i'r afael â materion o ran amryfusedd strategol, anghysondeb o ran dull gweithredu a diffyg arweinyddiaeth ar lefel leol a chenedlaethol yng Nghymru;
- gweithio gyda'r trydydd sector arbenigol a sefydliadau elusennol sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru gan gefnogi dioddefwyr a goroeswyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ofyn am eu mewnbwn i ddatblygu polisi, strategaeth a darparu gwasanaethau;
- gweithio gyda dioddefwyr a goroeswyr, i gael dealltwriaeth o'u profiadau a'u safbwyntiau ac i ystyried sut y gallai'r rhain ddylanwadu ar ddatblygiad polisi a darpariaeth gwasanaethau;

- cefnogi Gweinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gynnwys drwy ymgyrchoedd cenedlaethol;
- darparu cyngor arbenigol i Dîm VAWDASV ehangach Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion polisi, gan gynnwys addysg a hyfforddiant; a
- chymryd rhan mewn cyfarfodydd ar lefel Gweinidogion a swyddogion i drafod eu gwaith a mewnbwn i ddatblygiad polisi ehangach.